Codi'r safon

Archwiliad thematig o safonau proffesiynol

Crynodeb

Cynnwys

Rhagair **2**

Crynodeb gweithredol **4**

Argymhellion ac awgrymiadau **12**

Rhagair

Ni ellir gorbwysleisio'r pwysigrwydd o weithredu ynglŷn â safonau proffesiynol i effeithiolrwydd Gwasanaeth yr Heddlu, a hefyd er mwyn sichau fod y cyhoedd yn parhau'n hyderus ac yn gefnogol. Yn 1999, mewn adroddiad thematig ar onestrwydd yr heddlu gan Arolygwyr Heddlu Ei Mawrhydi (AHEM), dywedodd y Prif Arolygydd ar y pryd, yn gwbl gywir:

> **"Nid oes rhinwedd pwysicach i aelodau o'r Heddlu na'u gonestwydd, a'u bod yn gweithredu'n gywir. Heb y cyneddfau sylfaenol hyn, ni ellir disgwyl i'r cyhoedd ymddiried yn yr heddlu, na bod â'r hyder ynddynt sy'n caniatâu system o 'blismona drwy gydsynio'."**

Erbyn hyn, mae 'safonau proffesiynol' yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar weinyddiad iach y Gwasanaeth, ac ar hyder a chefnogaeth y cyhoedd. Mae'r materion hyn yn cynnwys delio gyda chwynion yn erbyn aelodau'r heddlu, ymchwilio i gamymddwyn proffesiynol, ymdrin â bod yn agored i lygredd, galluoedd y staff, a chael gwared ar ymddygiad anghwrtais neu gormesol tuag at gydweithwyr neu'r cyhoedd.

Mae'r rhaglen gynhwysfawr hon o archwiliadau, a weithredwyd ymysg heddluoedd Cymru a Lloegr, yn tystio i bwysigrwydd y gweithgareddau a ddaw dan bennawd cyffredinol safonau proffesiynol yng ngolwg Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi (AHEM). Yn unigryw, roedd bron pob aelod o staff AHEM â rhan yng ngweithrediad y rhaglen, a bydd y canlyniadau yn cyfrannu'n sylweddol at ymwneud swyddogion blaenllaw â phob heddlu am gryn amser i ddod.

Tra mae plismona'n wynebu newid sylweddol, a phroffesiynoldeb yr heddlu yn amlwg dan chwyddwydr, bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn cyfrannu'n sylweddol at welliant cynaliadwy yn safonau proffesiynol yr heddlu. Wrth weithredu'r argymhellion hyn, bydd yn bwysig iawn gweithio mewn partneriaeth gyda phob un o'r cyfranwyr allweddol.

Mae'n galonogol fod cefnogaeth a chydweithrediad y rhanddeiliaid allweddol a gynrychiolir ar Grŵp Cyfeirio'r archwiliad wedi cael dylanwad sylweddol ar ganfyddiadau'r archwiliad ac wedi'i wella. Roedd yr aelodau'n cynnwys Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CCAH), Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH), Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (CAH), y Swyddfa Gartref a chymdeithasau staff. Cyfrannodd yr aelodau o'u harbenigedd a'u gwybodaeth fel unigolion ac fel sefydliadau, a bu hynny'n ddylanwad ar ganfyddiadau amodol y tîm archwilio, ac yn sialens iddynt.

Hoffwn ddiolch i bawb fu'n cyfrannu, ac rwy'n awyddus i weld cydweithrediad o'r math yma'n parhau drwy'r cyfnod gweithredu.

Hoffwn hefyd ddiolch yn bersonol i'r tîm archwilio thematig, cydweithwyr rhanbarthol ar AHEM fu'n gwneud archwiliadau unigol, aelodau o Awdurdod yr Heddlu a chynrychiolwyr o'r CCAH a gyfrannodd neu a gyfwelwyd, ac aelodau ar bob lefel yn yr heddluoedd a gyfrannodd dystiolaeth gynhwysfawr ac arfer da.



Syr Ronnie Flanagan GBE MA
Prif Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi

Crynodeb gweithredol

1. Cydnabyddwyd yn eglur ers dyfodiad y Gwasanaeth Heddlu modern yn y 18ed ganrif fod cyflawni a chynnal safon uchel o ddisgyblaeth a phroffesiynoldeb wrth blismona yn hynod o bwysig. Mae gonestrwydd, cywirdeb a phroffesiynoldeb aelodau'r heddlu yn hollol allweddol i sut y'i gwelir gan y cyhoedd, ac o ganlyniad, i ba raddau mae'r cyhoedd yn hyderus a chefnogol. Mae'r Gwasanaeth Heddlu Prydeinig wedi'i seilio ar gydsynio a chefnogaeth o du'r cyhoedd, ac heb hynny, ni all weithredu'n effeithiol o gwbl.

2. Un o'r ychydig faterion ynglŷn â phlismona lle mae cyfarwyddyd statudol ar Arolygwyr Heddlu Ei Mawrhydi i fodloni eu hunain fod y ddarpariaeth yn effeithiol, ydy wrth i heddluoedd ymdrin â safonau proffesiynol, ac yn enwedig wrth ymdrin â chwynion penodol gan y cyhoedd. Atgyfnerthwyd y cyfarwyddyd yma gan un ddeddf ar ôl y llall, ac mae Arolygwyr Heddlu Ei Mawrhydi (AHEM) wedi cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif bob amser, gan ofalu bod archwilio'r agweddau hyn yn elfen barhaol o'u rhaglen greiddiol wrth archwilio pob heddlu.

3. Pwysleisiwyd ymhellach bwysigrwydd y mater yma gan nifer o sgandalau amlwg yn ystod yr 1990au, ac yn ddiweddar yn narganfyddiadau tri adroddiad pwysig yn dilyn dau ymchwiliad cyhoeddus gan Syr William Morris a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ac arolwg trylwyr o drefniadaeth disgyblu'r heddlu gan William Taylor.

4. Mewn cyd-destun cyfnewidiol o'r math yma, penderfynodd AHEM atgyfnerthu pwysigrwydd y mater tra'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol trwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr yn archwilio safonau proffesiynol o fewn pob heddlu yng Nghymru a Lloegr. Ar sail y rhaglen hon, lluniwyd adroddiad ar berfformiad pob heddlu unigol, a gyhoeddwyd fel adroddiad atodol i asesiad sylfaenol AHEM o'r heddluoedd yn 2004/05. Yn ogystal, casglwyd themâu, arferion da, a materion o bwysigrwydd cenedlaethol o fewn yr adroddiad thematig hwn.

5. Tra'r oedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar strwythurau, gweithgareddau ac adnoddau adrannau safonau proffesiynol (ASP), cymerwyd y cyfle i gymharu hyd a lled y swyddogaethau arbennig hyn, a deall sut y mae materion safonau proffesiynol cysylltiedig yn cael eu trin. Er enghraifft, nifer fach o adrannau safonau proffesiynol sydd â chyfrifoldeb rheolaidd am arolygu'r drefn gwyno nac yn cymryd rhan mewn achosion tribiwnlys cyflogaeth. Er hynny, mae rhai elfennau o'r ddau sy'n berthnasol i waith creiddiol yr adrannau o ymdrin â chwynion, camymddygiad, gwrth-lygredd a gwersi sefydliadol.

Strwythur safonau proffesiynol

6. Mae safonau proffesiynol yn adran gymhleth o blismona, sydd wedi esblygu dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'r gwahanol heddluoedd wedi datblygu eu hadrannau safonau proffesiynol a'u swyddogaethau mewn dulliau amrywiol, gan greu strwythurau a diffinio'u swyddogaeth yn wahanol, a defnyddio terminoleg amrywiol. Er i Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH) gyhoeddi cyfarwyddiadau yn 2003, mae'r heddluoedd ar y cyfan wedi glynu at eu dulliau gwahanol o weithredu. Er fod hyn yn ddealladwy, o ystyried y cyd-destun hanesyddol a gwleidyddol, mae'r gwahaniaethau hyn yn fygythiad i effeithiolrwydd, yn arbennig yng ngoleuni'r trawsnewidiad i heddluoedd strategol sydd ar y gweill, fydd yn gofyn am uniad effeithiol rhwng diwylliannau a systemau gwahanol.

7. Mae angen dirfawr am batrwm safonol ar gyfer stwythur, swyddogaethau a therminoleg wrth ymdrin â safonau proffesiynol. Mae'n dda o beth fod CPSH eisoes wedi dechrau uwchraddio'r cyfarwyddiadau a roddwyd yn 2003, a'u bod wedi mynegi bwriad o baratoi templedau safonol. Er hynny, mae'n bwysig fod yr elfennau perthnasol i gyd yn cael eu harchwilio'n drylwyr, a bod y cynllun a lunnir yn addas i'w bwrpas o fewn cyd-destun newydd plismona, a'i fod ar gael cyn gynted â phosib.

8. Hefyd, mae'n hanfodol bwysig fod y templed safonol yn mynnu bod y Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol (MCC) o weithredu ar sail cudd-wybodaeth, yn rhan annatod o swyddogaethau safonau proffesiynol. Bydd angen adnoddau a sgiliau pwrpasol er mwyn gallu ymdrin â chudd-wybodaeth, dadansoddi, a gwerthuso lle bo hynny'n addas. Hefyd, mae'n rhaid i waith adrannau safonau proffesiynol fod wedi'i blethu'n llwyr i brosesau busnes creiddiol heddluoedd, a rhaid i'r berthynas rhyngddynt ag unedau rheoli ac adrannau eraill fod yn gryf, yn ffurfiol ac yn barhaus.

9. Fel pob amser, ni ellir gorbwysleisio'r pwysigrwydd o gael arweiniad cryf a gweithgar gan benaethiaid, ymrwymiad personol, arolygu effeithiol a chefnogaeth. Gallai hyn gael ei hybu drwy gyrff fel pwyllgor safonau proffesiynol yr heddlu, ac efallai'n bennaf drwy ganfod a rhannu gwersi a ddysgwyd, ar lefel leol a chenedlaethol.

Cwynion a chamymddygiad

10. Un elfen hanfodol o gynnal enw da plismona ydy'r ffordd y mae'r Gwasanaeth i'w weld yn ymdrin â chwynion a chamymddygiad sy'n cael eu cyflwyno i'w sylw gan y cyhoedd a chan y gweithlu. Mae'r agwedd hon o waith yr heddlu wedi cael mwy o sylw oherwydd sefydlu Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CCAH), ac Arolwg Taylor o drefniadaeth camymddygiad.

11. Mae'r ddau ddatblygiad wedi amlygu'r angen am fwy o ganolbwyntio ar: hygyrchedd y drefn i bawb, gan gynnwys aelodau o grwpiau anodd eu cyrraedd a chymunedau lleiafrifol; mwy o gysondeb wrth ganfod a chofnodi cwynion; yr angen am agwedd gymesur wrth ymateb i achosion neu ddigwyddiadau sy'n cael eu cyfeirio; a phwysigrwydd dysgu'r gwersi ddaeth i'r amlwg wrth graffu ar safonau proffesiynol, er mwyn gwella'r gwasanaeth yn barhaol. Mae digon o dystiolaeth o arfer da ymhob un o'r meysydd hyn, er nad yw unrhyw un o'r heddluoedd yn llwyddo'n ddigamsyniol ymhob agwedd.

12. Wrth wella hygyrchedd, gellir cynyddu'r defnydd o dechneg 'cwsmer cudd', ac o linellau ffôn cyfrinachol ar gyfer cyflwyno cwynion. Bydd yna hefyd gyfle i dargedu y materion hynny a nodwyd yn arolwg diweddar CCAH fel rhai sy'n peri pryder; tynnodd sylw at faterion fel ofni'r canlyniadau o gyflwyno cwynion, a diffyg ymwybyddiaeth o'r drefn. Mae marchnata a chyhoeddusrwydd yn allweddol wrth hyrwyddo gwaith yr adrannau safonau proffesiynol, o fewn a thu allan i'r heddluoedd eu hunain, a hefyd wrth adeiladu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, yn enwedig ymysg grwpiau lleiafrifol a grwpiau anodd eu cyrraedd.

13. Mae yna ormod o ddulliau gwahanol o gofnodi cwynion yn gyffredinol wrth eu derbyn ar y cychwyn, ac wrth gofnodi ethnigrwydd yr achwynwr, fel sy'n statudol i'w wneud. Gellid dadlau'n gryf dros sefydlu safon gofnodi genedlaethol ar gyfer cwynion y cyhoedd, gan adeiladu ar brofiad y Gwasanaeth o sefydlu trefn safonol o gofnodi troseddau. Mae cyfarwyddyd statudol CCAH yn sail synhwyrol i'w ddilyn, ond hoffai AHEM weld mwy o fanylion o ran y safon ddisgwyliadwy, a'r dulliau o sicrhau fod cydymffurfio'n digwydd, ac o wirio hynny.

14. Byddai asesiad buan a pharhaus o achosion unigol yn elfen hanfodol wrth ofalu bod cymesuredd wrth ymchwilio a datrys cwynion. Un opsiwn nad yw'n cael llawer o ddefnydd ar hyn o bryd, ac a fyddai'n help i ddatrys llawer o achosion ynghynt yn aml, fyddai eu datrys ar lefel leol. Ar hyn o bryd cymerir cryn dipyn o amser i gyrraedd yr un nod. Byddai ymgodymu ag oedi diangen wrth ymchwilio neu wneud penderfyniadau yr un mor bwysig; mae AHEM yn cydweithio gydag Arolygwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) yn benodol er mwyn archwilio'r oedi sy'n cael ei greu gan drefniadaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ôl y sôn.

15. Elfen hanfodol arall wrth ymgyrraedd at gymesuredd fydd gwneud mwy o benderfyniadau ar sail risg. Wrth gyfuno asesu buan ac ystyriaeth o ganlyniadau tebygol, gellid dod i benderfyniadau cyflymach, wedi'u seilio ar ffeiliau achos llai cynhwysfawr, fyddai wedyn yn golygu y byddai angen llai o adnoddau wrth eu hymchwilio. Mae'n amlwg y byddai'n rhaid i unrhyw ddull o weithredu sy'n seiliedig ar risg fod â system addas o rwystau a

gwrthbwysau, wedi'i chefnogi gan reoli ac arolygu effeithiol, er mwyn bod yn ddigon tryloyw.

16. Mae staff adrannau safonau proffesiynol angen gwell hyfforddiant ynglŷn â chwynion a chamymddygiad, a hefyd reolwyr llinell. Yn wir, o ystyried y newidiadau tebygol i'r drefn ddisgyblu o ganlyniad i Arolwg Taylor, mae'r ddadl yn cryfhau dros becyn hyfforddi cenedlaethol achrededig.

Gwrth-lygredd

17. Ers sefydlu tasglu arlywyddol CPSH ar lygredd o fewn yr heddlu yn 1999, datblygodd y Gwasanaeth dimau ymchwilio gwrth-lygredd hynod broffesiynol ac effeithiol bron ymhob heddlu. Mae'r unedau hyn wedi'u trefnu bron yn gyfan gwbl yn ôl egwyddorion MCC, fel arfer gyda thîm dadansoddi pwrpasol, a chyda'r hawl i ddefnyddio galluoedd casglu cudd-wybodaeth dirgel ac eraill.

18. Roedd casglu asesiad o fygythiad strategol cenedlaethol yn 2004/05 gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Cudd-wybodaeth Droseddol (GCCD) yn gyfraniad sylweddol tuag at gyfeirio ymdrechion yr heddlu a'r uned. Ymddengys mai'r prif fygythiadau o ran safonau proffesiynol oedd datgelu gwybodaeth, yn enwedig drwy ddefnyddio cudd-wybodaeth neu wybodaeth arall er mantais personol, neu ei drosglwyddo i gydnabod; ymdreiddio i'r sefydliad, sy'n fygythiad cynyddol wrth i 'deulu'r heddlu' ehangu; a chamddefnyddio sylweddau, sy'n cynyddu'r risg o orfodaeth neu o fod yn darged llwgr-wobrwyo.

19. Dim ond 29 o heddluoedd a gyfrannodd yn 2004/05, ac felly, ni chafodd yr ymarfer ei ailadrodd yn 2005/06 gan GCCD. Fodd bynnag, mae'r un materion yn parhau i fod yn fygythiadau allweddol i safonau proffesiynol, a dylent fod yn sail i asesiadau o fygythiad lleol. Yn genedlaethol a lleol, mae'n hanfodol fod pob heddlu yn asesu'r bygythiad lleol, a'u bod yn fodlon ac yn barod i anfon eu casgliadau i'w dadansoddi a'u casglu'n genedlaethol.

20. Yn wyneb y bygythiad, mae'n hanfodol fod pob heddlu'n adolygu eu trefniadau diogelwch gweithredol, er mwyn sicrhau fod gwybodaeth sensitif yn cael ei gadw'n gyfrinachol a chywir. Mae'n bwysig hefyd cynnal arolwg yr un mor drylwyr o drefniadau gwirio staff, a chanfod staff sydd o bosib yn fregus, gan gynnwys creu polisi clir ar gamddefnyddio sylweddau. Byddai gwneud hyn yn gamau allweddol tuag at rwystro a chanfod llygredd ac unigolion agored i niwed.

21. Mae'n anochel fod llawer o archwiliadau gwrth-lygredd yn golygu fod angen sgiliau ac offer hynod arbenigol. Mae'n bwysig fod aelodau'r staff sy'n cael eu defnyddio yn yr ymchwiliadau hyn wedi'u hyfforddi'n addas, ac mae AHEM yn argymell y dylai'r hyfforddiant hwnnw gyfarfod safonau

cenedlaethol a bod wedi'i achredu felly. Yn ychwanegol at hyn, dylai unrhyw benderfyniad i ddefnyddio offer neu dactegau dirgel fod wedi cael ei ystyried yn hynod ofalus, a'i fod yn cydymffurfio'n llwyr â phob deddfwriaeth berthnasol.

Prosesau eraill o ran safonau proffesiynol

22. Er nad ydynt wedi'u cynnwys yn gyffredinol o fewn cylch gwaith adrannau safonau proffesiynol, ni ddylid diystyru'r pwysigrwydd o geisio monitro prosesau mesur perfformiad anfoddhaol, tribiwnlysoedd cyflogaeth, cwynion ac achosion sifil. Mae'r un peth yn wir am ddefnyddio 'stopio a rhoi cyfrif', a chwynion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn y gwaith. Gall dadansoddi'r prosesau hyn roi gwell dirnadaeth o ba mor 'iach' ydy sefydliad, gan fod o gymorth i'r sefydliad ddysgu gwersi a thrwy hynny osgoi ailadrodd camgymeriadau a phroblemau.

23. Oherwydd yr anghysondeb yng nghylch gwaith adrannau safonau proffesiynol mae'r cyfrifoldeb am y prosesau hyn, ac am eu tryloywder fel arfer, y tu hwnt i'r adrannau eu hunain. Mae'n bwysig fod pob heddlu'n sicrhau fod cysylltiad cryf rhwng pob adran neu uned sy'n ymwneud â'r prosesau hyn er mwyn sicrhau fod y sefydliad yn dysgu gwersi priodol, yn lleol ac yn genedlaethol.

Staff yr heddlu

24. Gall ymddangos yn anarferol i rai fod dwy system wahanol iawn ar waith o fewn un sefydliad ar gyfer ymchwilio camymddwyn gan staff. O fewn rhai heddluoedd, nid oes gan staff adrannau safonau proffesiynol y sgiliau angenrheidiol i reoli trefniadaeth camymddygiad staff yn effeithiol. Yn aml iawn, mae'r Adran Safonau Proffesiynol a'r Adran Adnoddau Dynol yn delio gyda gwahanol rannau o drefn ddisgyblu staff yr heddlu, ac mae hyn yn gallu arwain at oedi a dryswch. Tynnwyd sylw at hyn yn adroddiad thematig AHEM *Moderneiddio Gwasanaeth yr Heddlu* yn 2004, ac eto ni wnaed y newidiadau angenrheidiol hyd yn hyn.

25. Mae'r materion y tynnwyd sylw atynt uchod, a'r ysgogiad i'w newid, i gyd angen ymdrech ddygn i sicrhau cynnydd tuag at system decach a mwy cyson ar gyfer staff yr heddlu. Bydd llwyddo i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen yn gryn sialens i'r Gwasanaeth, awdurdodau'r heddlu a'r Swyddfa Gartref. Rhaid cynnwys undebau llafur staff yr heddlu yn y broses ymgynghori ac ymchwilio, a rhaid peidio cyfweld staff yr heddlu mewn dulliau anaddas drwy ddefnyddio technegau sy'n cael eu cyfrif gan rai yn ormesol ac yn anghymesur.

26. Dylid unioni canlyniadau a gwaharddiadau, ac er fod gwaith yn digwydd yn genedlaethol ar ddiwygio rheoliadau'r heddlu i'r perwyl yma, mae'n rhaid

gwneud ymdrech barhaus i sicrhau fod y systemau ar gyfer plismyn yn nes at rai'r sector preifat a staff yr heddlu.

Lles staff a chefnogaeth

27. Mae natur ddisgyblaethol y Gwasanaeth yn mynnu safonau uchel, ac yn ei gwneud hi'n haws o hyd i'r cyhoedd, a chydweithwyr o ran hynny, wneud cwyn neu gyhuddiad o gamymddygiad, ac felly y dylai fod. Mae gan y Gwasanaeth ac awdurdodau'r heddlu ddyletswydd gofal tuag at bawb o'r staff sy'n ymneud â'r broses hon, os mai nhw ydy'r person y cwynwyd yn ei erbyn, neu os ydyn nhw'n dyst i'r camymddwyn honedig.

28. Ar hyn o bryd, mae yna bedair proses wahanol sy'n cynnig 'cyfaill' i'r sawl y cwynwyd yn ei erbyn, er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth, gan ddibynnu ydy'r sawl a gyhuddwyd yn brif swyddog, uwch-arolygydd, un o reng y ffederasiwn, neu aelod o staff yr heddlu. Nid yw'n rhyfedd felly mai gan Ffederasiwn yr Heddlu mae'r strwythurau cyfeillio mwyaf cynhwysfawr yn yr heddlu, gan mai nhw'n sy'n cynrychioli'r nifer mwyaf o swyddogion a gyhuddir. Ceir cyfeillion i uwch-arolygwyr a phrif swyddogion oddi ar restrau a gynhelir yn genedlaethol. Fodd bynnag, i aelodau staff yr heddlu, mae'n dibynnu llawer a ydynt yn aelodau o undeb llafur.

29. Mae AHEM yn cymeradwyo'r gefnogaeth gan gyfeillion ymhob agwedd o'r prosesau hyn, ond mewn byd sydd â'i economi yn fwy cymysg o hyd, gyda gweithlu fwy modern, mae canran staff yr heddlu yn cynyddu, ac mae eu swyddogaethau yn eu gwneud yn fwyfwy agored i gyhuddiadau. Mae'n iawn felly fod y gwahanol brosesau – yr hyfforddiant a gyllidir, y ddarpariaeth o ran cyfeillion a chefnogaeth drwy'r gweithlu – i gyd yn cael ystyriaeth gyfannol, er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth pwysig hwn ar gael i bawb.

30. Heblaw am ystyried staff o fewn yr heddluoedd, mae'n rhaid cofio fod mwy na 1,700 o blismyn o bob rheng ar secondiad oddi wrth eu heddluoedd ar unrhyw bryd, a rhai ohonynt y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig. Mae'n ddigon hawdd felly i'r heddluoedd cartref colli gysylltiad â'u staff ar secondiad, ac i'r rheiny wedyn fod heb gyngor a chefnogaeth briodol pan fo cwyn, amheuaeth neu gyhuddiad yn eu herbyn. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Cynghori'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr yn llunio termau safonol a thempled gweithredu ar gyfer swyddogion ar secondiad, er mwyn gallu bod yn gyson ac yn weladwy. Mae AHEM yn cymeradwyo, ac yn cefnogi defnyddio templed gweithredu.

31. Yn olaf ond yn bendant nid yn lleiaf – wrth ystyried lles staff, down at swyddogion a staff yr heddlu sy'n gweithio o fewn adrannau safonau proffesiynol; ganddynt hwy mae'r dasg annymunol o ymdrin â chyhuddiadau yn erbyn eu ffrindiau a'u cydweithwyr. Mae'n bwysig fod rheolwyr a phrif swyddogion yn cydnabod y pwysau sy'n deillio o hyn, ac

yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion fel daliadaeth swydd, cylchdroi swyddi a phecynnau ail-integreiddio wrth i staff adrannau safonau proffesiynol ddychwelyd i swyddi yn y prif ffrwd.

Dysgu'r gwersi

32. Un ffordd ddihafal o gloriannu iechyd unrhyw sefydliad ydy ei allu i ddysgu gwersi o ddigwyddiadau'r gorffennol, boed dda neu ddrwg, gan eu bwydo i mewn i welliannau parhaus yn y ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithio. Er fod yna dystiolaeth o fewn y mwyafrif o adrannau safonau proffesiynol eu bod yn awyddus i ddysgu fel sefydliad, mae hyn yn cael ei rwystro'n gyffredinol gan ddiffyg cysondeb ar raddfa genedlaethol, a hefyd ddiffyg fforwm genedlaethol ar gyfer dysgu'r gwersi.

33. Mae'n galonogol fod arferion da iawn i'w gweld mewn heddluoedd unigol, ond yn aml, nid oes digon o strwythur i'r dysgu, ac mae bylchau yn y ddarpariaeth, yn enwedig yn y darpar wersi o dribiwnlysoedd cyflogaeth ac achosion sifil.

34. Heblaw am ddysgu gwersi o ddigwyddiadau, mae'n hanfodol dadansoddi gwybodaeth am berfformiad a rheolaeth er mwyn strwythuro'n broses o wella. O ran safonau proffesiynol, er bod, yn draddodiadol, ddigonedd o ddata wedi'i gasglu'n genedlaethol am feysydd gwahanol, ychydig ohono sydd wedi bod o ddifri'n berthnasol i wella perfformiad ym meysydd allweddol cynnig gwasanaeth. P'un bynnag, mae'r gwahaniaethau yn y dulliau o gofnodi a gweithredu wedi gwneud unrhyw gymariaethau'n annilys i raddau helaeth.

35. Mae CCAH wedi cymryd cyfrifoldeb am gasglu a chyhoeddi data am safonau proffesiynol gan y Swyddfa Gartref. Bydd CCAH, ar y cyd â CPSH, yn ceisio canfod mesurau mwy buddiol. Rhaid bwrw ymlaen yn gyflym gyda'r gwaith yma er mwyn gallu gwneud cymariaethau cyson, dilys a pherthnasol.

Arolygu ac archwilio

36. Er nad oedd swyddogaethau awdurdodau'r heddlu a CCAH yn cael eu harchwilio'n ffurfiol mewn perthynas â hyn, mae'n bosib canfod o'r wybodaeth a gasglwyd lle mae arfer da yn amlwg, a lle mae gweithgaredd a pherthynas pobl â'i gilydd yn ychwanegu gwerth at y prosesau y creffir arnynt. Mae CPSH, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu, a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CCAH) i gyd yn gwneud gwaith tebyg o ran diwygio neu adnewyddu eu cyfarwyddyd presennol i'w haelodau neu eu staff ynglŷn â safonau proffesiynol. Mae AHEM yn hapus i gyfrannu at y broses o ddiwygio ymhob achos, gan gefnogi cydweithio ac ymgynghori ymhlith ei gilydd.

Y ffordd ymlaen

37. Digwyddodd y rhaglen hon o archwiliadau yn ystod cyfnod o newid ac ansefydlogwydd yng ngwaith yr heddlu'n gyffredinol, na welwyd mo'i debyg o'r blaen, ac yn enwedig ym maes safonau proffesiynol. Mae yna lawer o waith ar y gweill ar lefel genedlaethol o ganlyniad i ganfyddiadau'r archwiliad, a hefyd yn dilyn ymchwiliadau cyhoeddus diweddar ac adolygiadau a dargedwyd yn benodol.

38. Mae CPSH yn edrych o'r newydd ar strwythurau cyffredinol ac amcanion safonau proffesiynol; mae gweithgor hefyd yn y broses o greu diffiniadau a thempledau safonol ar gyfer adrannau safonau proffesiynol yng nghyd-destun Gwasanaeth ailstrwythuredig, a chan ddefnyddio egwyddorion 'gwasanaethau gwarchodol'. Gobeithia'r CCAH ymgorffori ei gyfarwyddiadau statudol a'r safonau perfformiad sy'n rhan annatod ohono, ac asesu'r effaith. Mae CAH yn ailysgrifennu ei gyfarwyddyd i awdurdodau er mwyn eu hannog i weithredu mewn ffordd gyson, ac i ymroi mwy yn gyffredinol i safonau proffesiynol mewn heddluoedd. Ac mae AHEM yn gweithio gyda'r Gwasanaeth i ail-lunio'r diffiniad o arfer da o fewn y meini prawf penodol sy'n berthnasol wrth raddio heddluoedd mewn asesiad sylfaenol, yn unigol ac wrth eu cymharu â'i gilydd.

39. Mae'n hollol hanfodol fod y gweithredu yma i gyd yn gweithio fel cyfanwaith yn hytrach na dyblygu ymdrech, tynnu'n groes na chreu bylchau yn y ddarpariaeth. Dim ond wrth gyflawni hynny y medr y Gwasanaeth obeithio gweld gwelliannau parhaol yn ei effeithiolrwydd, ac er mwyn ymgyrraedd at y fath synergedd, mae angen fforwm bwrpasol yn cynnwys pob aelod allweddol i arolygu a chyfrannu at gynnydd yn yr amrywiol weithgareddau.

40. Mae 'safonau proffesiynol' yn golygu mwy na phroses o ddelio gyda chwynion y cyhoedd neu honiadau o gamymddygiad. Mae'n ganolog i'r gwasanaeth a gynigir gan yr heddlu, ac mae'n sylfaenol i barhad yn hyder y cyhoedd a'u cefnogaeth wrth i'r heddlu gyflenwi busnes creiddiol. Mae'n rhy bwysig i bob agwedd o waith yr heddlu i ganiatáu i'r pwyslais arno fynd ar goll neu gael ei sgubo ymaith gan ansefydlogrwydd cyffredinol cyd-destun plismona. Gall yr adroddiad a'r argymhellion hyn chwarae rhan bwysig mewn cadw'r pwyslais ar safonau proffesiynol, ond bydd ei lwyddiant yn y dyfodol yn ddibynnol ar ymrwymiad parhaus ac amlwg gan bob elfen yn y strwythurau sy'n ei reoli.

Argymhellion ac awgrymiadau

Argymhellion

Argymhelliad 1

Dylai Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu arwain prosiect er mwyn sefydlu a chyhoeddi templed safonol ar gyfer strwythur, swyddogaethau a therminoleg safonau proffesiynol, gan gymryd i ystyriaeth ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn heddluoedd strategol, a chan ragweld y bydd hynny'n digwydd.

Argymhelliad 2

Dylai pob heddlu ymgorffori'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol ymhob agwedd ar safonau proffesiynol, gan gynnal cysylltiadau uniongyrchol cryf rhwng adrannau safonau proffesiynol a phrosesau busnes creiddiol yr heddlu.

Argymhelliad 3

Dylai Prif Swyddogion[1] sefydlu dulliau o brofi prosesau, systemau a staff – drwy ddefnyddio cwsmeriaid cudd, er enghraifft – er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cofnodi a thrin cwynion yn erbyn yr heddlu yn effeithiol ac mewn pryd.

Argymhelliad 4

Dylai prif swyddogion adolygu polisïau sy'n ymwneud â gwaharddiadau disgyblaeth a thaliadau trothwy ar sail cymhwyster (TTSC) sy'n dilyn, a thaliadau blaenoriaeth arbennig (TBA). Dylent sicrhau fod yr egwyddorion a arddelwyd yn Arolwg Taylor yn cael eu hadlewyrchu yn y polisi hwn, a bod gwaharddiadau disgyblaeth a thaliadau TTSC a TBA yn cael eu cadw ar wahân yn llwyr.

[1] Mae'r term 'prif swyddogion' yn cynnwys Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr.

Argymhelliad 5

Dylai pob heddlu gyflawni asesiad o fygythiad strategol, ar lefel leol a chenedlaethol, o fewn yr amserlen a'r cyfnodau cyflwyno a osodwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Cudd-wybodaeth Droseddol (GCCD) (neu gan olynydd GCCD, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol). Dylai'r asesiadau ennyn cudd-wybodaeth o bob maes busnes sy'n ymwneud â safonau proffesiynol, gan gynnwys cwynion, achosion sifil, ceisiadau iawndal yn erbyn yr heddlu, materion diogelwch a gwirio, a byddent o ganlyniad yn cyfrannu atynt.

Argymhelliad 6

Yn ddarostyngedig i ganfyddiadau'r peilot, dylai Centrex,[2] mewn cytundeb gyda PSC Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (Grŵp Ymgynghorol Gwrth-lygredd CPSH) ddatblygu cwrs wedi'i achredu ar gyfer staff gwrth-lygredd ynglŷn â'r math o sgiliau sydd eu hangen o fewn y swyddogaeth honno.

Argymhelliad 7

Dylai CPSH a'r Swyddfa Gartref sicrhau fod cydweithio'n digwydd wrth symud ymlaen â'r ymchwil i'r nifer anghymesur o archwiliadau am blismyn o gefndiroedd du ac ethnig.

Argymhelliad 8

Dylai heddluoedd ymatal rhag defnyddio'u hawliau gweithredol ac – gan ddibynnu ar amgylchiadau – un ai ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sydd ar gael sef Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) i awdurdodi dulliau gwyliadwriaeth, neu ddefnyddio dulliau cyfreithiol o fonitro busnesau.

Argymhelliad 9

Dylai heddluoedd ddefnyddio holl rym Rheoliadau Telathrebu (Arfer Busnes Cyfreithiol) (Rhyng-gipio Negeseuon) 2000 i unrhyw waith monitro neu recordio trosglwyddiadau ar systemau telathrebu a ddefnyddir yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar gyfer busnes Gwasanaeth yr Heddlu, oni bai fod RIPA wedi awdurdodi gweithred o'r fath.

[2] Centrex – Awdurdod Canolog Hyfforddi a Datblygu'r Heddlu.

Argymhelliad 10

Dylai prif swyddogion adolygu eu trefniadau diogelwch wrth weithredu er mwyn gwarantu fod popeth yn ei le i sicrhau cywirdeb a chyfrinachedd gwybodaeth sensitif, a bod y mesurau diogelwch hynny'n cael eu cynnal yn drylwyr.

Argymhelliad 11

Dylai prif swyddogion ddadansoddi strwythurau gwirio cyfredol eu heddluoedd, a chan lenwi unrhyw fylchau, symud tuag at gydymffurfio'n llwyr â pholisi gwirio CPSH erbyn Ebrill 2007.

Argymhelliad 12

Dylai'r Swyddfa Gartref benderfynu ar broses gwyno y cytunwyd arni'n genedlaethol.[3]

Argymhelliad 13

Dylai prif swyddogion adolygu pob ffurflen a ddefnyddir mewn prosesau camymddygiad a pherfformio anfoddhaol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas, yn cynnwys pob gwybodaeth angenrheidiol, ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth a rheoliadau'r heddlu.

Argymhelliad 14

Dylai Cymdeithas Uwch-Arolygwyr Heddlu Cymru a Lloegr, mewn cydweithrediad â'r heddluoedd, drafod y posibilrwydd o gyflogi, ar delerau achlysurol, gnewyllyn o uwch-arolygwyr ymddeoledig i gynnig gwasanaeth cyfeillio.

Argymhelliad 15

Dylai Centrex wneud eu polisïau a'u prosesau ynglŷn ag aelodau ar secondiad yn fwy eglur, gan wella'r wybodaeth sy'n cael ei gynnig cyn eu sefydlu, a hefyd gynyddu ymwybyddiaeth y staff o'u cyfrifoldebau personol a phroffesiynol hwy yn dilyn y penodiad.

[3] Roedd hwn hefyd yn argymhelliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn dilyn eu harchwiliad ffurfiol o Wasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr ym mis Mawrth, 2005 (argymhelliad 80).

Argymhelliad 16

Dylai'r Swyddfa Gartref adolygu'r ddeddfwriaeth ynglŷn â phlismyn ar secondiad er mwyn eu gwneud yn dryloyw, yn glir ac yn gyson. Dylai secondiadau gael eu cofrestru a'u cofnodi'n ganolog.

Argymhelliad 17

Dylai Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (CCAH), mewn ymgynghoriad â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH), y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (CAH) a rhanddeiliaid allweddol, gytuno ar safon genedlaethol o gofnodi cwynion, rhaglen i'w gweithredu ac i fonitro cydymffurfio, a hynny heb ychwanegu haenau diangen o fiwrocratiaeth na rhwystrau eraill i welliant ym mherfformiad yr heddlu.

Argymhelliad 18

Dylai CPSH weithio mewn partneriaeth gydag CCAH, CAH, AHEM a chyfranwyr eraill wrth gynllunio a gweithredu fframwaith perfformio cryf a thryloyw, y gellir ei arolygu a'i fonitro yn rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol.

Argymhelliad 19

Dylai CPSH, CAH, CCAH, y Swyddfa Gartref ac AHEM, y rhanddeiliaid allweddol fydd yn gweithredu argymhellion yr adroddiad thematig hwn, sefydlu grŵp pwrpasol i adolygu'n rheolaidd pa gynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau.

Awgrymiadau

Awgrym A

Awgrymir fod cyfarwyddyd diwygiedig CPSH i adrannau safonau proffesiynol yn diffinio swyddogaeth y pwyllgor safonau proffesiynol, er mwyn galluogi heddluoedd i sicrhau fod eu grwpiau strategol hwy yn ymdrin yn briodol â materion safonau proffesiynol. Awgrymir ymhellach fod pob heddlu'n datblygu is-grŵp safonau proffesiynol yn yr uned reoli sylfaenol er mwyn gwella'r cyfathrebu rhwng yr unedau hynny ag adrannau safonau proffesinynol.

Awgrym B

Dylai CPSH benderfynu faint o adnoddau fyddai'n addas ar gyfer adrannau safonau proffesiynol fel rhan o'r gwaith ar strwythurau a therminoleg sydd eisoes ar y gweill ganddynt (gweler argymhelliad 1).

Awgrym C

Mae'n bosib y gallai CPSH ganfod pecyn safonol cenedlaethol, neu efallai y gallai Centrex neu'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA) wneud hynny; mae'n bosib hefyd y gellid defnyddio profiad y darparwr hyfforddiant er mwyn datblygu rhaglen genedlaethol ar gyfer ymarferwyr safonau proffesiynol, uwch-arolygwyr a CPSH, i'w chyflwyno'n rhanbarthol. Mae'r angen am hyfforddiant yn fwy hanfodol fyth o ystyried y newidiadau i'r côd disgyblaeth, sy'n debyg o ddod i rym yn 2007.

Awgrym D

Dylai prif swyddogion adolygu'r trefniadau archwilio systemau Technoleg Gwybodaeth sydd mewn bodolaeth, a rhoi trefniadau ar waith i sicrhau fod y systemau mewnol i gyd yn gallu cael eu harchwilio, a bod hynny'n digwydd, er mwyn atal mynediad i unrhyw un heb awdurdod, a datgeliad gwybodaeth.

Yn ychwanegol at hyn, dylai un aelod o dîm CPSH fod yn uwchswyddog gwybodaeth proffesiynol, wedi cymhwyso; byddai'n gyfrifol am reoli gwybodaeth, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys ansawdd data, diogelwch gwybodaeth, gwarchod data a rhyddid gwybodaeth.

Awgrym E

Yng ngoleuni'r cynlluniau sydd ar y gweill i ailstrwythuro'r heddlu, dylai adran safonau proffesiynol CPSH adolygu ei chronfeydd data gwirio, cyn i arian yr heddlu gael ei wario'n prynu cronfeydd data ar gyfer gwirio allai fod yn anghydnaws. Dylai unrhyw adolygiad gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o gael cynnyrch cenedlaethol.

Awgrym F

Yng ngoleuni deddfwriaeth ddiweddar, a'r bygythiad i'r Gwasanaeth o gamddefnyddio cyffuriau, dylai heddluoedd fod yn ystyried profion cyffuriau yn flaenoriaeth o ran safonau proffesiynol. Dylai fod ganddynt bolisïau yn eu lle cyn Ionawr 2007 fydd yn cyd-blethu ac yn cydymffurfio'n llwyr â hawliau dynol.

Awgrym G

Dylai fod gan bob heddlu bolisi ymddiriedaeth yn y gwasanaeth yn ei le erbyn Ionawr 2007.

Awgrym H

Dylai Centrex wneud gwell defnydd o'r wybodaeth reolaethol sydd ar gael o gofnodion am berfformiad anfoddhaol a phrosesau camymddygiad.

Awgrym I

Dylai Bwrdd Cynghori'r Heddlu yng Nghymru a Lloegr sicrhau fod y templed secondiad yn cydnabod fod amrywiaeth gynyddol o secondiadau gwahanol ar gael, a sicrhau bod:

- person ar secondiad yn cael cefnogaeth addas yn ystod eu cyfnod ar secondiad;
- fod pob heddlu sy'n anfon pobl ar secondiad yn rhoi enw cyswllt canolog;
- fod pob uned sy'n derbyn pobl ar secondiad yn chwarae rhan ganolog, gan gymryd cyfrifoldeb am eu rheoli;
- fod templed y cytundeb secondio yn cael ei lenwi gan y ddau sefydliad a'r person ar secondiad cyn i gyfnod y secondiad gychwyn (onibai fod galw anarferol o drwm).

Awgrym J

Dylai rhanddeiliaid, gan gynnwys CAH, CCAH, AHEM a NPIA gynllunio pecyn cenedlaethol o hyfforddiant achrededig ar gyfer eu haelodau, cadeiryddion a swyddogion paneli safonau proffesiynol awdurdod yr heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn hollol gymwys i ymdrin â'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig â safonau proffesiynol, a materion perthnasol eraill fel cyfreitha sifil.

Mae'r crynodeb hwn ar gael mewn dewis o ieithoedd a ffurfiau, os mynnir.

Arolygwyr Heddlu Ei Mawrhydi
Ashley House
2 Monck Street
Llundain SW1P 2BQ

Mae'r crynodeb hwn hefyd ar gael ar wefan AHEM
www.inspectorates.homeoffice.gov.uk/hmic

ISBN: 1-84473-908-2

Cynhyrchwyd gan COI ar ran Arolygwyr Heddlu Ei Mawrhydi.
Mehefin 2006. Cyf: 273118

© Hawlfraint y Goron